# Gwybodaeth i Gleifion
# Gosod Tâp Transobturator - TOT

## Adran Gynaecoleg

**Trin anymataliaeth straen:**

Anymataliaeth straen wrinol yw pan fydd wrin yn gollwng, yn bennaf pan fyddwch yn gwneud rhywbeth (peswch, codi, tisian, ac ati). Mae rheolaeth wrthweithiol, megis yfed digon o hylif, colli pwysau, a ffisiotherapi yn llwyddiannus mewn 60-70% o achosion

Os bydd rheolaeth wrthweithiol yn methu, gall llawdriniaeth i osod Tâp Transobturator (TOT) fod yn opsiwn.

**Manylion y driniaeth:**


- Gwneir y driniaeth o dan anesthesia cyffredinol neu anesthesia yn asgwrn y cefn ac mae'n cymryd tua 10 munud.


- Rhoddir tâp bach o dan wddf y bledren (wrethra) sy'n gweithredu fel hamog sy'n ei gynnal ac yn atal unrhyw ollyngiad pan fydd dan straen.
  Mae cyfradd llwyddiant y lawdriniaeth yn 80%.

- I osod y tâp yn eich corff, gwneir tri toriad bach; un toriad 2cm yn y wain o dan yr wrethra a dau doriad ½ cm ym mhob gafl. Bydd y pwythau a ddefnyddir yn hydoddi ar eu pen eu hunain mewn 7-10 diwrnod.

- Rhowch wybod i'r nyrs pan fyddwch am basio wrin. Bydd hi'n mesur faint rydych chi'n ei basio ac yna'n gwirio'ch pledren gyda sgan i wneud yn siŵr eich bod wedi ei gwagio'n ddigonol. Caniateir i chi fynd adref pan fyddwch yn pasio wrin yn gyfforddus. Os ydych chi'n cadw mwy na 100ml o wrin, byddwch yn cael eich dysgu sut i wagio gweddill yr wrin gan ddefnyddio ISC (hunan gathetreiddio ysbeidiol).

- Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn gadael yr un diwrnod neu'r diwrnod canlynol. Os cyfunir y driniaeth ag atgyweiriad ar gyfer prolaps, byddwch fel arfer yn aros am 3 diwrnod.




**Risgiau a phryderon:**

- Efallai y bydd angen i 1 o bob 10 menyw wagio ei phledren gyda chathetr ddwywaith y dydd (hunan gathetreiddio ysbeidiol - ISC).  Mae hyn fel arfer yn datrys ei hun mewn 2-3 wythnos.

- Gall dwy o bob deg ddatblygu haint yn y llwybr wrinol.

- Mae siawns fach o anaf i’r wrethra, i’r bledren, i’r pibellau gwaed neu i’r nerfau.

- Bydd hyn yn cael ei atgyweirio ar y pryd ond gall niwed i'r nerf achosi poen cronig yn yr afl mewn 1% o fenywod.

- Mae yna hefyd risg fach y bydd y deunydd rhwyll yn dod i'r amlwg yn llwybr y wain (erydiad).  Efallai y bydd angen tynnu neu docio'r tâp mewn rhai o'r achosion hyn.

- Efallai y bydd symptomau pledren orweithgar (brys i basio dŵr a gollwng dŵr cyn cyrraedd y toiled) yn ymddangos ar ôl y driniaeth.  Fel arfer gellir rheoli hyn gyda ffisiotherapi (hyfforddiant y bledren) a meddyginiaeth.

**Adref**

- Gall y rhan fwyaf o gleifion ddychwelyd i wneud gweithgareddau arferol o fewn 1-2 wythnos.

- Gallwch yrru pan fyddwch chi'n teimlo'n gyfforddus yn eistedd ac yn gallu stopio mewn argyfwng (efallai y bydd angen i chi wirio gyda'ch cwmni yswiriant).

- Dylech osgoi cyfathrach rywiol, straenio, dawnsio, codi pwysau trwm neu wneud ymarfer corff trwm am bythefnos.

**Camau Dilynol:**

- Fel arfer gwneir apwyntiad claf allanol i chi ymhen 3 mis

- Os cewch unrhyw broblem, cysylltwch â:-

  Ysbyty Brenhinol Gwent, Ward B7 Gorllewin ar:-
  Rhif Ffôn: 01633 - 234579

  Ysbyty Brenhinol Gwent, Ward B 7 Dwyrain ar:-
  Rhif Ffôn: 01633 - 238722

  Ysbyty Ystrad Fawr, ar:-
  Rhif Ffôn: 01443 - 802553 (caiff y linell ffôn ei staffio tan 1pm Llun-Gwener)

  Ysbyty Neuadd Nevill, Ward 3/2:-
  Rhif Ffôn: 01873 732410 / 01873 732411

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**